# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 138

MEDI 1987


# ETIFEDDIAETH AR WERTH

Mae Capel Heol y Crwys ar werth. Wedi llawer o drafod, pwyllgora a gweddio ar ran yr aelodaeth, a llawer o siarad a dyfalu ymysg rhai nad ydynt yn aelodau, penderfynwyd y byddai'r achos yn y Crwys yn symud.


Deellir mai'r adeilad ddewiswyd ar gyfer yr achos newydd yw eglwys "First Church of Christ Scientist" yn Richmond Road. Mae'r adeilad mawr modern to fflat hwn a welir yn y llun isod ar y dde o fewn tafliad carreg i safle presennol y capel yn Heol y Crwys.

Ystyriwyd tri dewis gan y Pwyllgor Adeiladau, sef gwella'r adeilad presennol (sydd wedi bod yn addoldy ar gyfer Methodistiaid Calfinaidd Caerdydd ers Mai 19 1900), symud i adeilad arall, ac adeiladu capel newydd ar safle newydd. Gwnaed ymdrech i ddod o hyd i safleoedd addas ar gyfer codi capel newydd, ac ystyriwyd adeiladau cymwys eraill yn y ddinas. Yn y pen draw, ymfudo oedd y dewis i'r adeilad yn Richmond Road.

Gwyddys bod nifer o'r aelodau heb fod yn hapus ynglyn a'r penderfyniad i symud. Dywedodd y gweinidog, y Parch. W.I. Cynwil Williams yn adroddiad blynyddol y capel:

"Hwyrach y byddai ambell un ohonynt wedi caru aros yn Heol y Crwys. Rydym yn parchu eu dadleuon ac yn diolch iddynt am wrando ar ddadleuon y mwyafrif a bleidleisiodd i symud 'rownd y gornel' lle mae'n 'fwy golau' am fod yno fwy o bosibiliadau gwell ar gyfer dyfodol ein cynulleidfa a'i chenhadaeth".

Bu'r hen gapel a welir yn y llun uchod ar y dde yn fagwrfan i lawer o blant y ddinas, ac mae'r lle yn sanctaidd ac yn annwyl iawn i sawl un fel y man ble y gweinyddwyd gwasanaethau bedydd, a phriodas ac angladd ar hyd y blynyddoedd, yn ogystal a bod yn addoldy wythnosol. Mae pryder ymysg rhai a fydd y deiliaid newydd, pwy bynnag y bont, yn parchu hanes a thraddodiadau'r adeilad, ond mae eraill sy'n llawn hyder am y "mwy o bosibiliadau gwell" a geir "rownd y gornel".






CAMP Y CLWB

'Does fawr o dro er pan sefydlwyd cwmni'r Fuwch Goch, cymdeithas ddrama Clwb Ifor Bach, ond mae wedi dod yn agos at y brig yn barod ym mhrif gystadleuaeth dramau byrion Cymru, yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhorthmadog.

Daeth cynhyrchiad Ynyr Williams o 'Yr Arth' gan Tsiecof yn ail yn y gystadleuaeth, a derbyniodd gryn glod gan y beirniad ym Mhorthmadog.

Mae paratoadau ar y gweill 'nawr ar gyfer cynyrchiadau'r hydref a'r gaeaf ac mae croeso i bawb sydd a diddordeb i ddod i'r cyfarfodydd. Gwyliwch allan yn y clwb ac yn Y Dinesydd am y dyddiadau.

Mae nifer o ddatblygiadau cyffrous, newydd eraill yn y Clwb, a cheir mwy o fanylion ar dudalen 3 oddi mewn.

Gobaith pwyllgor y Clwb yw denu croesdoriad eang o blith Cymry Cymraeg y ddinas i ddefnyddio'r Clwb fel canolfan hamdden a diwylliant.

Tŷ'r Cymry - Caerdydd,
11, Heol Gordon,
CAERDYDD.
CF2 3AJ.

Annwyl Syr,

Bu Tŷ'r Cymry yn ynys o Gymreictod yn ein prif ddinas ers mwy na hanner can mlynedd. Wrth heneiddio fe waethygodd cyflwr yr adeilad, a bu rhaid gwario tipyn o arian ar atgyweirio'r tŷ. Yn ffodus fe dderbyniwyd £7,500 oddi wrth y Swyddfa Gymreig a Chyngor De Morgannwg ar gyfer y defnyddiau. Bu rhaid talu mwy na £1,000 i weithwyr, ac fe wnaed llawer o waith gwirfoddol gan gyfeillion y tŷ.

Mae'r tŷ yn awr yn cael ei baratoi ar gyfer ysgol feithrin Gymraeg a chanolfan chwarae Gymraeg i blant. Mentrwn apelio at gyfeillion y tŷ am gyfraniad, a byddai rhyw ddwy bunt y pen yn dderbyniol dros ben.

Yr eiddoch yn ddiolchgar,

Eric Evans.
(Ysgrifennydd)

---

Cydymdeimladau a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Sarah Beynon, priod annwyl y diweddar Edwin Arthur.

Cydymdeimladau dwys a Nans Couch, un o weithwyr mwyaf dygn a ffyddlon 'Y Dinesydd' yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn ddiweddar, a hynny yn frawychus o sydyn.

Dymuniadau gorau i Gareth Hall Williams wedi iddo gael llawdriniaeth i'w ysgwydd yn Ysbyty Rhydlafar. "Caffed amynedd ei pherffaith waith" Gareth.

Llongyfarchiadau i Briony a Rhodri Jones ar enedigaeth eu mab Jack yn Ysbyty Llwyncelyn Hwlffordd ar fore Mawrth Awst 25ain. Wyr cyntaf i Selwyn a Margaret Jones, Cyncoed a Jill ac Eric Lloyd, Cheshem Bois, Buckinghamshire.

Llongyfarchiadau i Geraint a Sian Lewis o Meadow Street, Pontcanna ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, ac i Geraint hefyd am gyhoeddi ei gyfrol gyntaf, cyfrol o straeon byrion o'r enw 'Y Malwod'.

Dymuniadau da oddi wrth holl ddarllenwyr 'Y Dinesydd' i Dr Phil Ellis a'i deulu ar y fenter fawr o fynd i weinidogaethu i'r Wladfa am flwyddyn gron. Edrychwn ymlaen at gael ei hynt a'i helynt tra bydd yno.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Dr. Jane Jones, Bill a Lisa ar eu profedigaeth sydyn o golli Mamgu Felingwm. Meddyliwn hefyd am Tadcu sydd wedi colli cymar oes. Lle gwag iawn fydd ym Mhencnwc Felingwm Nantgaredig, a chwith fydd colli cwmni "Mamgu" yn Lady Mary Road. Mae ein meddyliau efo chi.

## CLWB RYGBI CYMRY CAERDYDD

Mae'r tymor Rygbi ar gychwyn a'r 'Clwb' sef Clwb Rygbi Cymry Caerdydd wedi bod wrthi ers tro yn ymarfer ar gyfer eu gemau dros y gaeaf. Fel arfer, mae'r Clwb mewn hwyliau da a'r aelodau yn edrych ymlaen yn frwdfrydig at y tymor newydd. Gobeithir cynnal 2 dim gyda rhestr lawn o gemau ac felly dyma'r amser i bwysleisio bod croeso mawr yn disgwyl chwaraewyr newydd sy'n barod i ymroi i'r gwaith caled a'r hwyl sy'n rhan o fywyd y Clwb. Cynhelir sesiynau ymarfer bob nos Fawrth yn Ysgol Glantaf am 6.30 p.m. a chwaraeir y gemau cartref ar gaeau Llandaf.

Mae croeso hefyd i gefnogwyr, naill ai i roi help ymarferol i'r Clwb neu i godi llais o'r llinell ar bnawn Sadwrn. Mae'r tim erbyn hyn wedi ennill ei blwy ym myd Rygbi'r ardal ac yn edrych ymlaen at gefnogaeth bellach ymhlith Cymry Caerdydd.

Dyma restr o Swyddogion y Clwb 1987-88 - gellwch gysylltu a nhw os ydych yn awyddus i ymuno a'r chwaraewyr -

Capten - Huw Hall Williams
(Ffon: 396802)

Ysgrifennydd - Dr. Huw Charles
(Ffon: 561341)

## OES 'NA BÊL-DROEDWYR?

Gyda'r tymor pel-droed ar ein pennau yn barod mae Clwb Cymric wedi bod yn ymarfer gan obeithio ar ddechrau da i'r tymor. Ar ôl disgyn o'r Premier i'r Adran Gyntaf cafwyd tymor digon siomedig ar ôl dechrau gobeithiol. Yr un bu hanes yr ail dim, ym mhumed adran Cynghrair Caerdydd a'r Cylch am y tro cyntaf.

Prif broblemau'r tymor diwethaf oedd y nifer o anafiadau, gohiriadau di-rif dros y gaeaf a dipyn o golli diddordeb a oedd yn rhannol gysylltiedig a'r gohiriadau.


Gobaith swyddogion y Clwb am y tymor yw tymor heb anafiadau, gwell canlyniadau (esgyn i'r Premier a'r 4ydd Adran?) a gwaed newydd ac ifanc i gryfhau y Clwb. Felly, os oes unrhyw ddarllenwr am chwarae i GLWB CYMRIC mae croeso i chwi ddod i ymarfer ar nos Iau am 6.30 ar Gaeau Llandaf, (ar bwys Cathedral Road), neu cysylltwch â Huw Bevan (Capten y Tim Cyntaf) ar 564537 neu Eurwyn Roberts - 461588.
Edrychwn ymlaen at weld wynebau newydd a mwyn o frwdfrydedd dros y Clwb yn y tymor i ddod.

Eurwyn Roberts.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 - 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530


## 100 Mlynedd o Faneri Merched yn Chapter, Market Rd., yno tan Medi 23

Lliwgar, trawiadol ag effeithiol - dyna'r ansoddeiriau oedd yn dod i'r meddwl yn sythbin wrth i mi gerdded drwy ffreutur Chapter tuag at Oriel y Baneri - ag o gyrraedd canol yr Oriel mi welwn y geiriau - "De Morgannwg Ddi-Niwcliar"; 'Aberystwyth - Cefnogwch y Glowyr'; 'Cyfarchion di-niwcliar i Seland Newydd'; 'Undeb Dynion o Blaid Hawliau Merched'; - ag un o'r rhai hynaf yn datgan 'Y Tent Dirwestol'.

Can mlynedd o gefnogaeth merched i bethau o bwys sydd yma ac mae'n dangos sut mae mudiadau radical wedi defnyddio ffurfiau traddodiadol y ffair a'r gorymdeithiau crefyddol fel fflagiau silc neu faner wedi ei frodio yn gywrain neu ei beintio'n amrwd i dynnu sylw at fudiad neu syniad.

Mae yma sawl baner wedi ei roi ar fenthyg o wahanol rannau o Brydain, ond ffrwyth llafur a chynnyrch cwmni o'r Borth, Dyfed, ydi'r rhan fwyaf ohonyn nhw - Cwmni Campbell Design. Gwraig o'r enw Tualia Campbell ydi'r cwmni sydd wedi sylweddoli fod yna le i fusnes baneri fel hyn, ond sydd hefyd yn fywiog iawn ei chefnogaeth i'r mudiadau sy'n arddangos - fel y Mudiad Heddwch a Bywyd - ac mae'r baneri yma wedi eu gweld ar orymdeithiau lawer. O ddarllen y manylion cyflwyno sydd wrth ochr bob baner, mi welir fod Tualia Campbell wedi ymchwilio yn fanwl i'w thestun ag hefyd wedi llwyddo i ail greu rhai tebyg i'r rhai fu gan Sylvia Pankhurst ddechrau'r ganrif.

Gwaith gwnio hefo peiriant ydi'r rhan fwyaf ohonyn nhw, hefo peth gwaith llaw: crochet, brodio neu applique ar waith y grwpiau o ferched fel rhai Abergynolwyn.

Ewch yno i weld lliw cynnil y faner sy'n cofio Hilda Murrell ag un chwaethus De Morgannwg Di-Niwcliar.

Wyddech chi fod yna 770 o faneri yng ngorymdaith Merched Dros Ryddid yn Llundain ym 1908? Tybed faint sydd wedi bod ym Greenham?!!


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# CLWB IFOR BACH

Bydd cynnwys y tudalennau hyn yn ddigon i ddangos bod y clwb wedi datblygu cryn dipyn ers iddo agor ychydig dros bedair mlynedd yn ôl. Sut bynnag, nid yw'r pwyllgor yn fodlon o bell ffordd ac felly maent yn chwilio o hyd am ffyrdd i wella pethau drwy ychwanegu at yr amrywiaeth o ddigwyddiadau er mwyn paratoi gweithgareddau at ddant pawb.

O'r mis yma ymlaen, fe drefnir adloniant o dan dri phenawd, h.y. "nosweithiau'r blewyn gwyn" i aelodau mwy aeddfed; "Sesiynnau Roc" i bobl ifanc a "Canol y Ffordd" i blesio pawb. Fe gynhelir y mwyafrif o sesiynnau roc yn y neuadd a'r nosweithiau eraill yn y lolfa. Bydd y "Nosweithiau'r Blewyn Gwyn' yn dechrau tua wyth o'r gloch ac fe fydd pob un o les i ryw fudiad Cymraeg gan y bwriedir rhoi tocynnau gwerth £100 i £150 at ryw achos neilltuol. Er bod y clwb ar agor dros y penwythnos tan ddau o'r gloch y bore, ni chaniateir mynediad ar ôl hanner nos o fis Hydref ymlaen.

Cyfle arall i fudiadau godi arian i'w cronfeydd yw "Cwis y Mis" - cynhelir cwis ar y nos Wener cyntaf o bob mis gyda phob unigolyn yn talu pum deg ceiniog i gystadlu a'r tîm buddugol yn cymryd y cyfan. Yn nechrau'r mis yma, ar yr ail nos Fercher, bob mis ar ôl y dosbarthiadau dysgu Cymraeg, fe fydd noson werin.

Ar Fedi 22, fe gynhelir fforwm yn y clwb dan y teitl, "Clwb Ifor Bach - Canolfan i Bawb?", yn rhoi cyfle i bawb i fynegi eu barn ar rôl y clwb.

Nosweithiau'r Blewyn Gwyn
(Rhestr ddarpariaethol)

Yn lolfa'r Clwb yn dechrau am 8 o'r gloch:

Medi 19 - Bwchadanas a Gwenno Dafydd yn portreadu Edith Piaf

Hyd 17 - Mynediad am Ddim

Tach 14 - Geraint Lovgreen a'r Enw Da

Rhag 19 - Dafydd Iwan

Achlysuron Eraill

Medi 4 - "Cwis y Mis" 8 o'r gloch.

Medi 9 - Dosbarthiadau Cymraeg yn dechrau:
Blwyddyn 2 a "Croesi'r Bont". Noson Werin y Mis.

Medi 14 - Cyfarfod Gwella Heol Womanby 6 o'r gloch.

Medi 22 - Cyfarfod Cyffredinol y Clwb 7 tan 8
+
Fforwm 'Clwb Ifor Bach - Canolfan i Bawb?' 8 o'r gloch.

Medi 25 - Mudiad Ieuenctid Plaid Cymru.

Medi 29 - 'Staws i'r Iaith yn Ninas Caerdydd' - Dogfen trafod. Croeso i bawb.

Hyd 2 - 'Cwis y Mis'

Hyd 6 - Ieuan Wyn Jones A.S. Ynys Môn. Croeso i bawb.

Hyd 9 - Noson o deyrnged i Harri Webb:
Yr Henesiaid
Heather Jones
RAY SMITH
Tocynnau'n unig.

Nosweithiau Canol y Ffordd
(Rhestr ddarprieithol)

Medi 5 - Steve Eaves a'i Driawd.

Medi 12 - 'MWG'.

Medi 26 - Pryd Mae Te.

Sesiynnau'r Roc
Yn Neuadd y Clwb:

Medi 26 - Ffair Recordiau am 2 y prynhawn:
Grwpiau drwy'r nos tan 2 y bore.

Hyd 3 - I gael ei gadarnhau: Geraint Jarman.

HEN NIC YN PRIODI

Mae'r hen lanc, ysgrifennydd Clwb Ifor Bach a'r argraffydd, Nic ap Glyn, wedi cael ei ddal o'r diwedd, ac fel mae'r papur yn mynd i'r wasg, mae e'n priodi â Shirley Howman, athrawes ifanc o Swydd Gaer. Mae Shirley, sydd wedi dysgu Cymraeg, yn gweithio fel athrawes gerddorol deithiol yn Ne Morgannwg. Byddant yn ymgartrefu yn Y Rhath - pob bendith ar eu priodas.

PARTI I FRENIN Y DYSGWYR

Ar ôl i Gwilym Roberts, un o ymddiriedolwyr Clwb Ifor Bach, gael ei anrhydeddu yn Eisteddfod Porthmadog am ei holl waith yn adenill tir i'r iaith Gymraeg, mae 'na si ar led bod rhai o gyfeillion Gwilym am drefnu parti arbennig yn y clwb i dalu teyrnged i un o feibion mwyaf y ddinas.

CYFLWR HEOL WOMANBY

Ar ôl blynyddoedd o aros am y cyngor lleol i wneud rhywbeth i wella cyflwr gwarthus yr heol lle lleolir y clwb, mae'r swyddogion wedi mynd ati i alw cyfarfod o holl bobl busnes yr heol gyda'r bwriad o gael yr awdurdodau i wneud rhywbeth. Y gobaith yw i gael arwyneb o flociau yn ymestyn o Heol y Cei at Heol y Castell a lampiau hen ffasiwn sy'n hen eu golwg

## Coleg y Brifysgol, Caerdydd

DIPLOMA ASTUDIAETHAU ALLANOL
(Y GYMRAEG A'I LLENYDDIAETH)

Anelir y Cwrs hwn yn arbennig at unrhyw berson sy'n ymddiddori o ddifrif yn y gwahanol agweddau arno. Gall fod yn berson y mae y Gymraeg yn iaith gyntaf iddo neu yn berson a'i dysgodd yn ddigon trylwyr i'w siarad, ei darllen a'i hysgrifennu yn raenus. Nid oes angen unrhyw gymwysterau addysgol ffurfiol. Cynhelir y dosbarthiadau ar nosweithiau Mawrth a Iau.

RHAN I: Astudir y pynciau canlynol yn y flwyddyn gyntaf.

CWRS I: Un noson yr wythnos am 28 wythnos. Nos Fawrth, i ddechrau ar 29.9.87 am 7.00 o'r gloch. (Nodir nifer y darlithoedd mewn cromfachau).

(a) Barddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif (12)

Y Canu Rhydd (6);
Y Canu Caeth (6).

(b) Agweddau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg (12)

Y Cynfeirdd (Aneirin, Taliesin) (2); Y Mabinogi (2); Y Cywyddwyr (1); Dafydd ap Gwilym (1); Y Dadeni Dysg (1); Ellis Wynne (1); Goronwy Owen (1) Emynyddiaeth (1); Beirdd Gwlad (1); Daniel Owen (1).

(c) Hanes Cymru (4)

(Y darlithoedd hyn i'w traddodi cyn pob cyfnod a astudir yn (b) uchod).

CWRS 2: Un noson yr wythnos am 20 wythnos. Nos Iau, i ddechrau ar 1.10.87 am 7.00 o'r gloch.

Yr Iaith Gymraeg

Ei nodweddion llafar (10)
Ei nodweddion ysgrifenedig (10)

Trefnir ysgolion undydd ac ymweliadau hefyd fel rhan o'r Cwrs Diploma.

TÂL AM Y CWRS
Y tâl am bob blwyddyn o'r Cwrs yw £35.00.

MAN CYFARFOD
Adeilad y Dynoliaethau, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

CEISIADAU
Gellir gwneud cais trwy lenwi'r ffurflen gofrestru sydd yn ein prospectws neu cysylltwch a'r Adran Efrydiau Allanol, 38, Heol y Parc, Caerdydd.
Rhif ffôn: Caerdydd 874000, Est. 4832.

CYFARWYDDWR Y CWRS
Cefin Arthur Campbell M.A., Adran Efrydiau Allanol, 38, Heol y Parc.
Rhif ffôn: 874000, Est. 5336.

# DRAMA PORT

Agorwyd y Theatr ar y Maes ar y dydd Sadwrn cyntaf, wedi cyflwyniad gan Edwin Williams, Cadeirydd Panel Drama Sefydlog Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol. Hen athro, dal yn ifanc, i mi fel mae'n digwydd, un o fy hoff bobl yn y maes od hwn, ac yr oedd ei fynegiant, neu ei arlwyaeth o'r hyn o'n blaen yn addo pethau godidog. Siaradwyd hefyd gan Mr. Huw Roberts, Cadeirydd Pwyllgor Drama Genedlaethol Bro Madog, un arall o'r annwylaf rai, ag sydd yn un o garedigion a noddwyr mwyaf y Theatr yng Nghymru.

Y gŵr gwadd oedd un o'n hactorion gorau, un a anwyd rhwng y ddwy afon, y Teigris a'r Iwffforates, neu'r Dwyfor a'r Dwyfach - Guto Roberts - neu Guto Rhoslan ...

"Hen, hen, yw murmur llawer man
Sydd rhwng dwy afon yn Rhoslan"

Eifionydd - R.W. Parry.

Dechrau'r wledd, yr 'hors d'oeuvre' oedd perfformiad o ddrama 'Bobi a Sami' gan W.S. Jones, un arall o bobl y llecyn gwareiddiedig hwn o'r hen genedl fach hon. Yn wir, un o'm cyfeillion annwylaf, ers cyn tro byd bellach. Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod, rhwng Edwin, Huw, Guto a Wil yn teimlo mor gartrefol a wiwer mewn nyth o gnau. Er fy mod fel llawer ohonoch wedi byw yng Nghaerdydd am chwarter canrif bellach, ac o Feirionydd yn wreiddiol, beth bynnag!

Perfformiwyd Bobi a Sami, gan Gwmni Croes Cymru. Cefais fwynhad mawr o wylio'r ddrama, un o ddramau anghyfarwydd Wil i mi. Cafodd Dewi T. Huws hwyl arni fel y Cynhyrchydd ac hefyd fel yr actor a gymerai ran Bobi, felly hefyd Gwion Lynch fel Sami.

Petawn yn mynd ati i hollti blew, credaf y gallai 'tempo' y ddrama, os dyna'r gair, fod yn llawer mwy cyflym. Roedd gormod o seibiau, a rheini yn seibiau hollol ddianghenraid hyd y gwelwn i. Hefyd, amseru eu cyflwyniad o'r ddeialog, dim digon o amrywiaeth yn ei 'dweud'.

Sut bynnag, euthum allan o Theatr y Maes yn bur dalog - agoriad da iawn.

Hen beth snichlyd yw gorfod beirniadu - hoffwn pe bai pob un cystadleuydd yn deilwng o'r wobr - ond fe wyddwn nad oedd un o'r wyth yn deilwng - yn ôl fy nghyd feirniaid - dim un! Credwn fy hun fod gwaith 'Llon' yn ddigon cymeradwy i'w ystyried, ond nid oeddwn yn credu'n ddigon cryf o bell ffordd i anghydweld yn ormodol a'r ddau ohonynt. Nid ar chwarae bach, o bell ffordd y daethom i'r canlyniad, ac efallai mai Mr. William Lewis a Mr. Michael Povey sy'n iawn - synnwn i 'run gronyn, Ac eto, rywle yn y 'twll sydd yn fy mol', efallai mai fi sy'n iawn. Fel y dywedais, peth snichlyd yw gorfod beirniadu ar y lefel bwysig hon.

Am y saith cystadleuydd arall, dywedwyd ein bod wedi eu lambastio. Pe byddech yn darllen eu cynnyrch, credwch fi neu beidio, buom yn hynod o drugarog.

Does gen i ddim byd callach i'w wneud mwy na mynd ati i ysgrifennu fy nramau fy hun, gan obeithio na chaiff rheini eu lambastio.

Rwy'n cofio Syr Tomos Parry-Williams yn dweud stori wrtha i am ryw hen ffermwr, ym Mhenllyn o bobman, ac iselder ysbryd angherddol arno, ac yn gwaeddi ar ei forwyn yn ddyddiol.

'Margiad, ty'd yma i'n helpu fi grogi fy hun.'

'Croga dy hun, dy hun y cythraul gwirion' oedd ateb Margiad!

Rhydderch.

## EISTEDDFOD SEFYDLOG

Er fod llwyddiant 'Steddfod Porthmadog wedi rhoi rhyw estyniad bach i'r 'Steddfod Genedlaethol deithiol, yn y pendraw, fe fydd rhaid i'r 'Steddfod sefydlu mewn un man. Hwyrach taw penderfyniad yr Eisteddfod i fynd i faes y Sioe yn Llanelwedd yn y naw degau yw'r cyfle euraid na ddylai'r genedl fentro 'i golli.

Ai'r ateb yw pythefnos lawn, nid wythnos, o wyl wir Gymreig ar faes y Sioe, maes y genedl bob blwyddyn?

Meddyliwch am y manteision - arweinyddion all uno'r ddwy ochr, Moc Morgan, Dai Jones, Dei Tomos, J.R. Jones a Charles Arch; beirniaid o'r safon ucha', - John Roderick Rees i feirniadu'r cobiau a'r Bryddest, Dic Jones yr awdl a'r da godro, Ifan Lloyd y Rhuban Glas a'r Merlod Mynydd.

Eitha syniad hefyd fydde cyfuno y Sioe a'r 'Steddfod yn un ŵyl - y dydd Llun cynta' - Corau; dydd Mawrth - da godro; dydd Mercher - Canu Gwerin a Dawnsio; dydd Iau - Dofednod, Colomendod a chwningod, ayb.

Wedyn cystadleuaeth newydd - Canu Gwerin tra'n cneifio, Canu Cân yr Arad Goch tra'n handlo Arad; yn yr adran Cerdd Dant Canu Cywydd y Gôf i gyfeiliant pedoli. Cael y Nosweithiau Llawen i gyd ym mhebyll y Livestock a'r ceffylau ar fyrne gwellt, i bobl cael arogli tawch y llofft stabal a chael gafael ar ysbryd y noson wir werinol. Fe dorrai'r system lawr ar gostau pobl fel Tom Gwanas a Timothy Evans, Llambed; - dau ddiwrnod ac fe allen gipio'r gwobrau blaena am ddefaid a'r canu ar un ergyd.

FYddai dim angen bysus i gario'r Orsedd gyda digonedd o loriau treilars a bocsys ceffylau yn gyfleus. Pob stiward i wisgo bowler hat frown neu lwyd i roi awdurdod i'w swydd. Er mwyn cadw pawb yn hapus y bandie pres i orymdeithio yn ystod unrhyw fylchau yn y prif gylch. Yn ystod y bylchau hir ar y llwyfan - Arddangosfeydd cneifio a threialon cwn defaid gyda chwyaid neu wyddau.

Mae'n naturiol y byddai yna rai problemau'n codi - rhai'n cymysgu rhwng R.W. Pritchard Jones, beirniad adran defaid Llŷn a H. Pritchard Jones, beirniad y Fedal Ryddiaith. Problem arall yw beth i wneud a phobl fel Prif Gyfarwyddwr Anrhydeddus y Sioe bresennol, y Major D.H. Fetherstonhaugh, - bydde rhaid 'i bresgango fe i'r toilets.

'Dyw cyfuno byd yr anifeiliaid a byd y 'Steddfod ddim yn beth newydd. Arbrawf na ddylid fod wedi caniatau iddi ddiflannu yw hen drefn gadael i Dilwyn Miles yn ei dwrban i arwain gorymdaith yr Orsedd ar gefn Arab o farch, golygfa a ysbrydolodd Waldo i gynganeddu.

'Dilwyn Miles yn dilyn march.'

Fe fyddai'r cyfan yn rhodd ar blat i'r cyfryngau, - pythefnos o ddarlledu heb neidio blynyddol o un Wyl i'r llall. Dei Tomos, Delyth Wyn, Gwilym Owen, Sulwyn Tomos a Ruth Parry yn gallu handlo'r ddwy agwedd ar yr Wyl bythefnos heb unrhyw drafferth - pobl a bach o bridd neu fwd ar ei Wellingtons, barddoniaeth ar eu cof ac ychydig o wellt yn ei gwallt.

Meddyliwch am y manteision, cyfuno cystadlaethau Mam a Morwyn y fro a Miss Royal Welsh a'i galw'n Fenyw'r Flwyddyn, neu Brenhines - ffordd gyfleus i gadw'r teitl brenhinol heb ddigio neb. Hefyd, gyda traddodiad Seisnig braidd y Sioe, bydde dim prinder targedau i brotestiadau Cymdeithas yr Iaith hyd ddiwedd y ganrif a wedyn.

Man canol maes y Sioe a'r prif gylch fyddai cerrig yr Orsedd a phrif atyniadau'r wythnos fyddai'r treialon cwn defaid, a'r dasg olaf un, corlannu'r defaid o fewn cylch y cerrig. A'r llall, cael y ceffylau main i gwpla'u rownd neidio dros dair ffon wedi'u gosod ar y cerrig, a sefyll ar eu traed ôl ar y maen llog.

Ac yna pinacl yr Wyl bythefnos. Gorymdaith yr enillwyr Prif darw'r da duon Cymreig ar y blaen, Ty Ddewi William efallai, yna Beirdd y Gadair a'r Goron, wedyn y fuwch odro fwya cynhyrchiol ac enillydd y Rhuban Glas a'r cyfan yn benllanw y dathliad mawr blynyddol ein bod ni yma o hyd.

# O'R BABELL LEN

Nid wyf yn un o'r snobs llenyddol hynny sy'n ymffrostio na fuont ar gyfyl y Pafiliwn mawr gydol wythnos yr Eisteddfod; bum yno i'r oedfa fore Sul. Er hynny rhaid yw i bawb ystyriol gyfaddef nad yw'r hongol glaslwyd yn ddim amgen na man cyfleus i foddio obsesiwn diweddar ein Cenedl ni, a chanu, a chytuno mai'r Babell Lên yw gwir ganolbwynt Y Brifwyl.

I honno yr awn i bob cyfle, neu o leiaf i honno yr arfaethwn fynd oblegid rywsut neu'i gilydd bob blwyddyn mae'n anodd ei chyrraedd cyn, dyweder, un ar ddeg o'r gloch y bore, a hyd yn oed wedyn nid oes sicrwydd o gwbl y ceir mynediad iddi, yn enwedig os bydd rhywbeth gwerth ei glywed yn ei chynteddoedd, a rhaid nodi cyn mynd cam ymhellach nad yw pob dim a osodir yn y Cysegr Sancteiddiolaf hwnnw o dragwyddol bwys i lenyddiaeth ein gwlad. Gwyr ei ffyddloniaid y bydd mynych raid iddynt ddioddef ambell ffilm ymylol, neu sesiwn o ganu gwerin neu ddarlith wyddonol hyd yn oed, er mwyn sicrhau sedd ar gyfer y pethau gwirioneddol bwysig sy'n eu dilyn. Y gwir amdani yw i'r Babell Lên o'r cychwyn fod yn llawer rhy fach ar gyfer ei diben ac mae ei phennaf camp hyd yma fu troi caredigion llên y Genedl yn un rhes hir o gynffonwyr.

Mae'n wir i staff HTV eleni baratoi math ar babell orlawn yn un o'u haml ystafelloedd hwy lle y gellid syllu ar dair neu bedair set deledu, bob un yn dangos gweithgareddau'r Babell Lên drws nesaf, a rhaid diolch yn gynnes i'r Cwmni am y ddarpariaeth honno, ond nid oedd y trefniant yn gweithio bob tro, ysywaeth. Er enghraifft, pan gyfeiriwyd y rhai a fethodd cael gwrando ar Gwyn Thomas yn trafod Elis Wyn at bafiliynau HTV, yr hyn a gafwyd ar y setiau yno oedd lluniau hanner dwsin o gynhyrchwyr teledu yn pigo bogeiliau'i gilydd yn Theatr Fach y Maes. Ymarferiad diddorol wrth gwrs ond prin y daliai gymhariaeth a Gwyn Thomas yn mynd trwy ei bethau.

Er hynny, ac ar waethaf ambell siom gyffelyb, cafwyd digon o gyfle i lawenhau hefyd, cael mwynhau darlithiau cyfoethog Dafydd Glyn Jones a Meredydd Evans ar Robert Jones Rhos-lan, a T.H. Parry-Williams, rhaglen gabol Barddas yn dathlu cyfraniad pedwar bardd o'r un teulu, (Hedd Wyn, Morus Cyfanedd, Monallt ac Emrys Deudraeth), ambell feirniadaeth ysbrydoledig yn ei thro, ac yn benllanw bob prynhawn Ymryson y Beirdd yn eu gogoniant, tri thîm bob tro a Gerallt Lloyd Owen ym meuryna'r cyfan yn ei ddull dihafal ef ei hun, ei besychiad cynnil yma a'i saib feichiog acw yn llonni'r gynulleidfa yn llwyr. Ar ei ddeheulaw eisteddai Iswlyn Jones, ein cymydog rhadlon o'r Barri, yn tafoli limrigau'r dydd, a bu sawl bardd gwahanol yn ei dro yn trafod englynion y dydd.

Sioe fawr heintus ei hwyl yn cyrraedd ei hanterth brynhawn Ddydd Gwener yn yr ornest derfynol rhwng Maldwyn, Meirion a Morgannwg. Mae'n wir fod honno'n hwyr iawn oherwydd i'r Pwyllgor Llên drwy ryw ryfedd resymeg benderfynu cloi'r Babell yn swyddogol cyn i'r ornest olaf ddechrau er bod pawb ar binnau drain yn disgwyl amdani. Yn rhyfeddach fyth wrth ddod o'r llwyfan teimlai Cadeirydd y ddefod gloi dan orfod rhybuddio'r beirdd yng nghefn y llwyfan fod cynulleidfa fflat iawn yn eu disgwyl. Afraid dweud i'r gynulleidfa fflat honno godi'n bur sydyn wrth weld mawrion y Genedl yn esgyn o'r diwedd i'r llwyfan, a chafodd, yn iawn am ei hir amynedd, fwynhau gornest galed a thyn. Rhaid cofnodi bod tri o Gaerdydd yn nhîm Morgannwg, sef Emyr Lewis, Dafydd Johnston, ac un arall na fedraf yn fy myw gofio'i enw, a chyfaddef hefyd iddynt gael peth help gan Alan Llwyd o'r Gorllewin pell. Bu ond y dim iddynt drechu hefyd ond Maldwyn a enillodd y Tlws drwy ryw hanner marc y tro hwn a bydd yn rhaid disgwyl tan Eisteddfod Casnewydd i edfryd yr iawn berthynas rhwng Beirdd Morgannwg a beirdd gweddill ein gwlad.

# PERTHYN

Dwi ddim yn credu i mi erioed o'r blaen glywed am ddrama lwyfan yn ymdrin a phwnc mor sensitif a llosgach rhwng tad a merch - yn sicr nid yn y Gymraeg. Felly tipyn o fenter oedd rhoi drama fel hon ar lwyfan theatr yn yr Eisteddfod Genedlaethol sydd, wedi'r cyfan yn rhyw fath o West End i ni'r Cymry.

Dwi ddim yn cofio drama chwaith oedd mor annisgwyl o gyfoes. Tra roedd ein papurau dyddiol yn tynnu'n sylw at yr un math o ddigwyddiadau yn Cleveland - roedd cynulleidfa Eisteddfod yn cael eu corddi a'u synnu gan y ddrama ddadleuol hon gan Michael Povey.

Ond, un peth yw cael testun beiddgar, peth arall yw trin y testun yn fedrus a'i droi'n gelfyddyd.

Yn fy marn i, dyma waith gorau Michael hyd yma. Roedd y ddeialog yn dawnsio a chlecian ac yn byrlymu priod-ddulliau Cymraeg rhywiog, tafodiaith bob dydd.

Dyfais dda hefyd oedd yr Holwr oedd yn amrywio o fod yn seiceiatrydd, i fod yn blismon, yn storiwr, yn gydwybod ac yn aelod cyffredin o'r cyhoedd.

Gwnaeth yr actorion Huw Dafydd, Ian Saynor ac Olwen Rees eu gwaith yn synhwyrus a chaboledig iawn fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl bellach gan yr actorion proffesiynol, profiadol hyn. Ond, camp fawr y noson i mi oedd dehongliad Nia Edwards o'r ferch dros gyfnod helaeth o'i phlentyndod i'w llencyndod. Llwyddodd i ddweud a gwneud pethau allai fod wedi codi cyfog ar ei chynulleidfa pe bai'n actores llai medrus. Yn wir, dyma newydd-ddyfodiad i'r llwyfan fydd yn hawlio lle pwysig i'w hun yn y theatr.

Diddorol i mi hefyd oedd y set glinigol oedd yn ein hatgoffa o labordy ac yn canoli ein meddyliau er elfennau seicolegol y pwnc. Roedd y cyfan yn llithro o'r gorffennol fel petai i ganol y llwyfan o dan feicrosgop yr awdur.

Clywais rai yn beirniadu'r ddrama trwy ddweud fod rhywbeth o'i le ar bob un o'r cymeriadau ac yr oedd "pechodau'r tadau" hyd yn oed yn ymyrryd.

Onid dyna oedd bwriad yr awdur? Dangos pob agwedd ar ei bwnc. Fyddai hyn i gyd ddim yn wir am un teulu wrth gwrs ond, roedd darnau yno o filoedd o deuluoedd.

Does gen i ddim ond llongyfarchion arbennig i David Lyn ar ei gynhyrchiad caboledig a chofiadwy ond, heb sgript Michael Povey, fyddai'r ysgytwad theatrig yna ddim yn bod.

Gwenlyn Parry.

---

Mae'n amlwg bod awyr Caerdydd yn rhoi sbonc yn sodlau ein dawnswyr! Yn ystod yr Eisteddfod fe gafodd y ddau barti dawnsio gwerin o'r cylch i gystadlu eleni, lwyddiant mawr.


Ddydd Gwener, llwyfanwyd pedwar parti o'r naw yn y rhag-brawf a dyfarnwyd y wobr gyntaf i Barti Nantgarw gyda'r Twrch Trwyth yn bedwerydd. Yna, ddydd Sadwrn, yn y gystadleuaeth ddawns stepio, gosodwyd y Twrch Trwyth yn ail gyda Nantgarw yn drydydd. Llongyfarchiadau i'r ddau gwmni ac yn arbennig i Eirlys Britton ar ennill y wobr arbennig a gynigiwyd eleni i arweinydd y Parti Dawns buddugol.

Ac i goroni'r cyfan, ein llongyfarchiadau i Eirian Davies ar ei gamp athletaidd wrth ennill y gystadleuaeth ddawns unigol. Mae'n amlwg bod dawnsio gwerin yn fyw ac yn iach yn Ne-ddwyrain Cymru.

---

Llongyfarchiadau i Geraint a Siân Lewis o Bontcanna ar enedigaeth mab bychan SIÔN MEURIG, ar Gorffennaf 17eg. SIÔN yw wŷr cyntaf Wyn a Megan Morris, Y Rhath, Caerdydd, ond mwy profiadol yn y maes mae Mrs. Hetty Lewis, Tregaron.

---

# O'R MAES

Un o lwyddiannau mawr yr Eisteddfod bellach yw Pabell y Dysgwyr. Erbyn hyn mae ei gweithgareddau'n elfen amlwg a phwysig ac fe ddatblygodd y tu hwnt i bob disgwyl. Ymestyn y gweithgareddau y tu allan i'r babell ei hun ac nid y lleiaf ohonynt yw'r cystadlaethau i ddysgwyr, ar y naill llaw, a'r teithiau cerdded cyson o gwmpas y maes. Yn wyneb y datblygiad pwysig hwn sy'n cael ei gydnabod fel rhan annatod o ddarpariaeth yr Eisteddfod, yn swyddogol roedd yn dda calon tystio i anrhydedd arall a osodwyd ar ysgwyddau gweithgar Gwilym Roberts. Y tro hwn derbyniodd glod ac anrhydedd Gwobr Syr T.H. Parry-Williams am ei wasanaeth diflino i'w ardal ac i'w genedl.

Roedd traddodiad dysgwyr Caerdydd yn amlwg ddigon mewn mannau annisgwyl ar y maes - dau o feirniaid cystadleuaeth y brydd-est - yr Athro Bobi Jones a Tedi Millward - yn ddi-Gymraeg cyn dod dan ddylanwad Elvet Thomas yn Ysgol Cathays; Nia Royles (Daniel gynt) yn cael gwisg wen yr Orsedd am ei gwaith dygn a chyson ymhlith dysgwyr ledled Cymru. Wedyn, wrth daro i mewn i babell Cyngor y Celfyddydau gweld tîm camera wrthi'n ffilmio'r artist Elizabeth Haines wrth ei gwaith. Deall mai un wedi dysgu Cymraeg oedd y benfelen a gariai'r camera ar ei hysgwydd. Criw technegwyr teledu ifanc oedd wrthi fel rhan o gynllun ein teledwyr annibynnol ac S4C i hyfforddi ar gyfer y diwydiant teledu Cymraeg. Enw'r ferch wrth y camera oedd Diana James.

Cael ar ddeall ganddi yn ei Chymraeg rugl a naturiol iddi ddod i'r afael a'r Gymraeg yn Ysgol Howell, Llandaf, dan ofal Janet Davies. Oddi yno i Aberystwyth, ac, yn fwyaf arbennig i Bantycelyn. Wedi'i chael ei hun yn y môr hwn o Gymraeg, rhaid oedd nofio'n galed i gadw ar yr wyneb, ac, erbyn hyn, mae hi wedi dod i'r lan yn hyderus. Bellach, dyma hi'n arfer y Gymraeg mewn maes technegol. Un arall a ddaeth yn llwyddiannus o ofal Janet Davies yw Amanda Tucker.

Yn ystod egwyl cyngerdd y Côr Ieuenctid, dyma hi'n gadael ei lle i gymysgu ar lawr y pafiliwn. Fel aelod o'r Côr roedd hi wrth ei bodd ac roedd yn bleser gwrando arni'n siarad am y profiad mewn Cymraeg gwbl naturiol a di-ffwdan. Mae hi'n wynebu'n eiddgar ei thymor coleg yn Aber, a dylai fanteisio ar y gymdeithas Gymraeg yno heb yr un drafferth. Mae Amanda, a'r nifer cynyddol tebyg iddi'n codi calon pawb sydd a diddordeb yn nyfodol ein diwylliant ac roedd eu gweld yn manteisio ar ein gŵyl genedlaethol drwy'r iaith fabwysiedig yn esiampl i gymaint o'n cydgenedl sydd wedi esgeuluo'i treftadaeth ieithyddol.

Os gobeithiol yw ysbryd Pabell y Dysgwyr nid felly'r argraff gyntaf o gyfraniad Cyngor Dwyfor i Babell Gwynedd. Y tu mewn i'r arddangosfa fawr hon roedd lle i bob un Cyngor dosbarth. Ar wahan i Ddwyfor, dangosent bosibiliadau, cyfle a mantais drwy lun o gair. Prif nodwedd arddangosfa Dwyfor oedd tywyllwch. Fe'i gosodwyd mewn plisgyn du. Yn yr unig fynedfa safai darn o garreg fel llechen carreg-fedd. Arni roedd cyfres o englynion cadarnhaol gan Alan Llwyd. Wrth droed y garreg eisteddai dwy dorch o flodau gan osod golwg fynwentaidd ar y porth.

Y tu mewn, mwy o dduwch. Torrwyd ar y fagddu gan gerflun bendigedig gan yr unig belydryn o oleuni a deimlwn. Safai'r cerflun ar bedestal o garreg ddu a'r geiriau 'Etifeddiaeth' yn amlwg. Gwaith Jonah Jones yw'r cerflunio a'r llythrennu ar faen, ac mae'n waith gwych dros ben fel y byddai dyn yn disgwyl. Mae'n amlwg mai symbol yw'r cerflun sy'n dangos rhieni a phlentyn, a gall sefyll fel darn o gelfyddyd mewn unrhyw oriel. Yr hyn a rydd i gerflun fel hyn 'ryw ystyr hud' yw'r fan a'r lle y gosodir gwaith artistig ynddi. Yma, pelydrai'r symbol mewn môr o dywyllwch. Ai dyna fel y mae hi yn Nwyfor? Sgersli bilif.

Wynne Lloyd.


GWESTY FFERM PENBONTBREN

GLYNARTHEN, ABERTEIFI, DYFED SA44 6PE
Tel: 0239 - 810248

**Gwesty moethus Cymreig (A.A. - 2 seren) nepell o draethau a phentrefi'r arfordir, wedi ei greu o hen adeiladau'r fferm. Pob llofft gyda'i ystafell ymolchi, teledu lliw, radio, offer gwrando ar blant a thaclau gwneud te a choffi.**

**Anelir at greu prydau diddorol mewn awyrgylch wledig gartrefol yn swn y delyn.**

**Prisiau o ddechrau Hydref -**

**1 noson, cinio, ystafell a brecwast - £22**

**2 noson, cinio, ystafell a brecwast - £42**

**Llety am ddim o blant sy'n rhannu llofft gyda'u rhieni. Telir am eu bwyd yn unig.**

**Atyniadau eraill yn cynnwys Amgueddfa Wledig, Merlota i Blant a Llwybr Fferm.**


# FFILM

ADOLYGIAD FFILM

**"The Living Daylights"**

Gan fod y ffilm hon wedi bod allan ers tua deufis, mae'n siwr gen i bod pawb oedd wedi bwriadu ei gweld yn y sinema wedi gwneud hynny bellach. Yr un gymysgedd a gawn mewn ffilmiau Bond bob tro, ac os ydych yn mwynhau y risêt, mae'n debyg na chaethoch eich siomi yn hon. Pan es i i'w gweld yn Stryd y Frenhines, reodd y sgyrsiau arferol i'w clywed wrth ddod allan. Fe glywais un hyn haeru nad oedd hi hanner cystal â "Goldfinger". Mynnodd un arall ei bod yn tipyn gwell. Yr unig elfen newydd yn y sgyrsiau y tro hwn oedd y sylwadau ynglyn a'r prif actor, Timothy Dalton, a sut oedd yn cymharu a'r ragflaenwyr.

Teimlais i ar ol gweld y ffilm bod Dalton, sy'n enedigol o Fae Colwyn yng Nghlwyd, wedi llwyddo i roi ei stamp ei hun ar gymeriad Bond. Er hynny, gan fod tri actor arall wedi chwarae y rhan o'i flaen, mae'n anochel ei fod yn mynd i ymdebygu rhywfaint i un ohonynt. Gwelais fwy o Sean Connery na Roger Moore yn ei ddehongliad, sy'n dda o beth yn fy nhyb i gan fod Moore yn ymddangos i mi erioed fel na phetai'n cymeryd pethau o ddifri. Mewn ffilmiau o'r math, y gynylleidfa ddylai ddanos y duedd yma ac nid y prif actor. Er fod cyfrifoldeb Connery ganddo nid oedd mor oer a di-drugaredd yn ei ymddygiad. Tueddai i drin merched gyda mwy o barch ac yr oeddwn yn medru credu yn ei berthynas a'r prif actores. Yr elfen hon, mae'n debyg, a wnaeth y stori yn eitha tebyg o ran arddull i "On Her Majesty's Secret Service" (1969), lle y chwaraewyd rhan Bond gan George Lazenby. Mae'n bluen yn het Dalton felly nad yw James Bond y ffilm hon yn atgoffa rhywun yn syth o un o'r lleill.

Ffrwydriadau, ymosodiadau, saethu, dinistr a dihangfaoedd gwyrthiol sy'n addurno y rhan fwyaf o'r stori, wrth i Bond ymladd yn erbyn cynllwyniau dieflig y Rwsiaid, sydd unwaith eto yn bygwth diogelwch y Gorllewin. Mae'n amlwg nad yw ymdrechion clodwiw yr arweinydd Sofietaidd i wella delwedd ei wlad ac i fargeinio am ddiarfogi niwclear wedi gadael fawr o argraff ar awduron sgript "The Living Daylights". Er fy mod yn amau'r fentaliti yma weithiau, nid yw hi'n anodd gen i fwynhau ffilm "Bond" byth, ac mae hon wedi ei gwneud gyda'r steil arferol ac yn eitha cyffrous. Cawn waith 'stunt' penigamp fel arfer ac mae y ffilmio ar leoliad yn edrych yn hynod o liwgar. 'Debut' reit barchus i Dalton yn ei ran newydd. Dwn i ddim os mai dychmygu yr oeddwn i ond roeddwn bron yn sicr bod rhyw dinc a allai fod yn acen Gymraeg yn ei lais!

Dafydd Jones.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Mis ardderchog ymhob ffordd! Rhaid ond gobeithio fod y tywydd yn garedig er mwyn i chi gael mwynhau Mis Medi i'r eithaf yn cymdeithasu, ar eich gwyliau, neu hyn yn oed yn y gwaith. Dylai fod yn gyfnod rhamantus hefyd, efallai byddwch yn cyfarfod a rhywun deniadol o wlad dramor!

TAURUS: Byddwch yn awyddus i harddu'ch cartref nawr, ymrowch i'r gwaith gydag arddeliad, bydd gennych ddigon o ynni, ac fe allai'r gwaith gymryd eich meddwl oddi ar y stormydd emosiynol sydd o'ch cwmpas ar hyn o bryd. Gofalwch beidio a gorfwyta na gorwario!

GEMINI: Dylai hwn fod yn fis cymdeithasol iawn i chi. Efallai bydd rhai problemau'n codi yn y cartref. Peidiwch gwneud yn rhy fawr ohonyn nhw ac fe an i ffwrdd. Dylai hwn fod yn gyfnod eitha lwcus i chi. Ond cofiwch wrando ar gyngor eich cyfeillion, fe allai fod yn werthfawr iawn i chi maes o law.

SAGITTARIUS: Mis ardderchog ym mhob ffordd! Os am fynd ar eich gwyliau bydd teithio'n haws nag arfer, yn enwedig os ydych am fynd i rywle newydd a chyffrous. Bydd eich meddwl yn finiog iawn os ydych yn bwriadu gwneud gwaith ymenyddol. Efallai byddwch yn syrthio mewn cariad a rhywun anarferol iawn.

CAPRICORN: Byddai'n ddoeth datrys unrhyw broblemau ariannol a charwriaethol sy'n codi ddechrau'r mis, oherwydd erbyn diwedd mis Medi ni fydd amser gennych. Ddiwedd y mis bydd gorwelion eich bywyd yn ymagor i bob cyfeiriad; cyfle ardderchog i ddysgu sgil newydd neu i deithio'r byd.

AQUARIUS: Wel dyma fis rhamantus, nid o angenrheidrwydd i chi, ond i rywun agos atoch efallai. Dylai pethau fynd yn hwyliog i chithau hefyd ond i chi fod yn bositif ynglyn a'ch problemau. Os bu elfen o'ch bywyd yn eich cael i lawr yn ddiweddar, cewch gyfle nawr i'w waredu o'ch bywyd unwaith ac am byth.

PISCES: Mae hi'n bryd gweithredu! Bydd hwn yn gyfnod o waith caled i chi ddylai ddwyn ffrwyth, ond i chi ymroi gydag arddeliad. Byddai'n ddoeth gohirio cymdeithasu tan ddiwedd y mis er mwyn i chi ganolbwyntio ar eich gwaith yn gyntaf, a dangos eich gallu i'r byd - peidiwch a gorweithio chwaith!

CANCER: Mae hi'n bryd i chi edrych o ddifri ar eich sefyllfa ariannol. Thâl hi ddim i chi aros mewn paradwys ffŵl ddiwrnod yn rhagor. Dyma'ch cyfle i wella'ch byd ariannol. Os oes gennych broblem garwriaethol, byddai'n syniad trafod y mater gyda rhywun fydd yn barod i gydymdeimlo â chi.

LEO: Dylai hwn fod yn gyfnod ardderchog i chi, yn fis rhamantus a chreadigol dros ben. Cewch gyfle nawr i gyflawni beth bynnag a gynnoch, a'i wneud yn dda a gydag arddeliad. Cymrwch olwg gofalus ar eich sefyllfa ariannol tua diwedd y mis. Fuoch chi'n gorwario'n ddiweddar? Twt! Twt!

VIRGO: Mae'n bosib y byddwch yn dal i deimlo'n eitha isel ddechrau'r mis, ac yn awyddus i gilio oddi wrth y byd. Cofiwch fod rhai bobl bwysig a dylanwadol y bydd rhaid eu cyfarfod. Daw newid mawr a phwysig i'ch bywyd ddiwedd y mis. O'r diwedd mi fyddwch yn rowndio'r tro. I fyny bo'r nod!

LIBRA: Mis Medi o fwynhau a chymdeithasu fydd hi eleni, a does neb yn mwynhau parti'n fwy na chi. Ond cymrwch ofal o'r ceiniogau, fe all yr holl ddathlu gostio'n ddrud, a thâl hi ddim i chi orwario nawr. Cewch gyfle i ymlacio a chymryd hoe fach ddiwedd y mis - hyfryd!

SCORPIO: Edrychwch yn ofalus ar eich bywyd a'ch gyrfa. Ydych chi ar y trywydd iawn? Efallai ei bod hi'n bryd cael newid sylfaenol ac ysgytwol i'ch bywyd a'ch gyrfa. Peidiwch a bod ofn newid, gall fod y peth gorau y gwnaethoch erioed. Efallai daw cyfle i gymryd mwy o gyfrifoldeb.

## LLONGYFARCH



Dechreuodd Mr. Dewi Roberts, mab y Parchedig a Mrs. Tom Roberts, 31, Ffordd y Wenallt, Rhiwbeina, ar ei waith fel Gweinidog Egwlys Bresbyteraidd Pen y BOnt ar Ogwr. Bydd yn cael ei ordeinio yn Sasiwn Llwynypia ddechrau Hydref, a chynhelir ei Gyfarfod Sefydlu yn Hermon, Pen y Bont ar Ogwr, ar Sadwrn Hydref 17. Addysgwyd ef yn Ysgol Uwchradd Aberteifi a'r Coleg Diwiynddol, Aberystwyth.

## Rhagflas o'r Wladfa

Yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Cymry Ariannin ym mhabell y Cymdeithasau, ar fore Gwener Eisteddfod Bro Madog, cafodd Phil Ellis, a fydd yn teithio i Batagonia y mis yma gyda'i wraig, Angharad, a'u plant, Dafydd a Steffan, ragflas arall o gwmni byrlymus a llawen trigolion y Wladfa.
Fel y gŵyr darllenwyr Y Dinesydd, mae Cymdeithas Cymry Ariannin yn noddi taith y teulu i'r Ariannin, ble bydd Dr. Ellis yn gweinidogaethu yn y Capeli Cymraeg am flwyddyn. Bu llawer o bobl y Wladfa draw eleni, ac wrth gwrs ar ddiwrnod Seremoni Cymru a'r Byd, dim ond mewn un lle y bydden nhw, sef ar faes y 'Steddfod Genedlaethol.

Cafwyd cyfarfod lliwgar a diddan felly. Gwahoddwyd y sawl a fynnai i ddod i'r blaen a chanu, adrodd neu gyfarch. Manteisiodd nifer ar y cyfle hwn. Cafodd y darpar-Weinidog gyfle hefyd i draethu, gan gyflwyno ei hunan fel mynyddwr a oedd yn y broses o geisio goresgyn bryniau serth biwrocratiaeth er mwyn cyrraedd y paith. Cael gafael ar y passport (gorchwyl go anodd a swyddfeydd Casnewydd dan eu sang), oedd y dasg gyntaf. Wedyn darganfod fod tystysgrifau'r teulu yn annerbyniol gan lysgenhadaeth yr Ariannin heblaw eu bod nhw'n cael eu "cyfreithloni" ar awdurdod y Swyddfa Dramor yn Llundain. Gan fod hyn yn cynnwys tystysgrif y briodas dyma beth oedd hefyd yn fynydd annisgwyl! Y mynydd sydd heb ei goncro eto yn cael y papurau o Buenos Aires yn datgan fod yr Ariannwyr yn fodlon derbyn yr ymweliad hwn i'w gwlad.

Esboniodd fod gan y mynyddoedd hyn ystyr arbennig iddo fe wrth ymbaratoi. Ei fwriad wrth fynd i'r Wladfa fydd cyflwyno Iesu Grist, Gogoniant unigryw Ei Berson a'i Waith, i'r bobl.
Heb Hwn yn eich meddiant, mae'r ffordd i'r Nefoedd mor gaeedig ag unrhyw ffin dramor i deithiwr heb ei bassport. Ceisio gwneud hyn gydag awdurdod fydd y nod - nid awdurdod y Swyddfa Dramor, ond awdurdod yr Ysbryd Glân. Estynnodd wahoddiad i bawb oedd yn bresennol weddio y byddai hyn yn digwydd yn ystod yr ymweliad. Ac yn olaf, mynegodd ei awydd i bregethu Crist y Gair mewn ffordd berthnasol i bobl y Dyffryn - cael eu "visa" nhw er mwyn dwyn gair yr Arglwydd i'r galon. Nid mynd a hen bregethau fydd e, ond ceisio Duw ar gyfer gair amserol, personol, ar gyfer ei wrandawyr.

Erbyn diwedd y cyfarfod, roedd Swyddogion y Gymdeithas, gan gynnwys y Llywydd newydd, y Fns. Yvonne Owen, a dreuliodd gyfnod ei hymarfer dysgu yn y Brifddinas, wedi ei hethol neu ei hail-ethol. Aeth y ddwy awr yn ddigon cyflym, ac er mai braidd yn oer oedd tywydd y dydd Gwener, roedd gwres y croesawu a'r cyfarch yn ddigon i'n cynhesu oll.

# Colofn Shân Emlyn



Wrthi'n trio dadflino ar ôl yr Eisteddfod ym Mhorthmadog yr ydw i - a rhifyn Medi o'r Dinesydd yn hofran uwch fy mhen. Am be i sôn amdano medda chi? Chwedl John Roberts Williams - chwip o Steddfod oedd hi - ond - bod cymaint o weithgareddau fel nad oedd hi'n bosib i'w dal hi ym mhob man. Rhwng beirniadu a threulio hanner pob diwrnod mewn rhagbrofion yn "Y Ganolfan" ym Mhentrefelin, a cheisio edrych ar ôl "fy mhobol" - dros ddeg ar hugain ohonynt, yma am y tro cynta - roedd yr egni yn prinhau o ddydd i ddydd. Er hynny, roedd y cyfan yn bleser, yn fraint ac yn brofiad.

Maddeuwch i mi am ildio i'r demtasiwn o ymsuddo i f'obsesiwn - ond - os na wnai hynny - wel - does gen i ddim arall i'w ddweud. Homer a Monw Hughes yma ar 'i hymweliad cyntaf - wedi i'w cyndeidiau adael Cymru ar y Mimosa ym 1865. Maent wedi ymweld a phob cwr o Gymru - o Fôn i Fynwy. Siom oedd Eisteddfod Llangollen iddynt gan mai Saesneg yw iaith y llwyfan yno. Profiad gwahanol oedd Porthmadog a phob dydd a'i wefr iddynt.

Uchafbwynt eu hymweliad â Chymru oedd cael croeso mawr gan ddieithriad di-Gymraeg ar aelwyd eu cyndeidiau yn Nhroed Rhiw Dalar, Sir Faesyfed. Adnewyddwyd y tŷ, ond yr un oedd y distiau ar y nenfwd ac uwchben y lle tân. Tynnwyd lluniau yna. Cawsant y goriad a mynd i'r Capel lle bu eu hen hen daid yn Weinidog - ac fel teulu cynhaliwyd gwasanaeth byr yno - YN Y GYMRAEG - wrth gwrs - a'r Capel ers blynyddoedd maith yn uniaith Saesneg. Homer, Monw, Judith y ferch, Billy Hughes nai - efo'i Gymraeg Sbaenaidd ddeniadol yn atsain unwaith eto yn y gornel ddi-Gymraeg hon o Sir Faesyfed. I mi, eironi'r sefyllfa ydy ei bod hi ymron yn sicr, pe na bai'r teulu yma wedi ymfudo i Batagonia ac aros yn Nhroed Rhiw Dalar - na fyddai'r Gymraeg ar eu gwefusau heddiw. Nid oes neb yn ardal Troed Rhiw Dalar heddiw allai sgwrsio â hwy yn y Gymraeg.

Wedi iddynt fod yma efo mi am rai dyddiau - gofyn i Homer tra'n mwynhau ei "fate" cyn brecwast. "Wel, Homer, dyma chi yma, yn gwireddu breuddwyd, sut yda chi'n teimlo?"
"Shân fach, does gen i ddim digon o lygid i ryfeddu!"
Sgwrsio wedyn efo Monw - ac mae'r teulu dros y cenedlaethau wedi cael sawl profedigaeth a chroes i'w chario. Collwyd plentyn gafodd ei ladd gan buma ar fuarth y fferm. Llosgwyd y cartref i'r llawr gan golli telyn, piano a holl lyfrgell gerddorol a Cymraeg y teulu. Collodd Homer a Monw eu hunain ddau o'i chwe plentyn - ond alla chi ddim bod yng nghwmni dau siriolach. Finna'n gofyn sut oedd - neu sut y mae hi'n bosib goresgyn profiadau fel hyn. Monw yn dweud wrthai: "Shân, mae gan bawb groes i'w chario, a fel hyn dwi'n gweld pethau - mi elli di unai fynd yn wargrwm a llusgo dy groes y tu ôl iti, neu sefyll yn dalsyth a chario dy groes o dy flaen." Yda chi'n synnu fy mod yn cael budd o fod yn eu cwmni?

CYMRODORION CAERDYDD

Nos Wener, Hydref 2, am 7.15 o'r gloch bydd Cymrodorion Caerdydd yn cyfarfod yn Festri Y Tabernacl i arwisgo'r Llywydd newydd, Mr. T.J. Rhys Jones. Ceir rhaglen amrywiol a chwpaned o de. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau i Moelwyn a Delyth Jones, Verlands Close, Llandaf ar ddathlu eu priodas arian ar Orffennaf 31ain. Ein dymuniadau gorau iddyn nhw ar gyfer y chwarter canrif olaf! Mae'n braf gweld Delyth wedi gwella o anhwylder ddechrau'r haf.


## celtic asset management ltd.

**RHEOLWYR ANNIBYNNOL MEWN BUDDSODDIADAU AC ASEDAU PERSONOL. ARBENIGWYR MEWN CRONFWYDD BUDDSODDI. DELWYR TRWYDDEDIG MEWN GWARANNAU.**

**'Nawr mewn Swyddfeydd newydd - ers Awst 1af 1987,**

**TY PENHILL, 11/13 HEOL PENHILL, CAERDYDD**
**CF1 9UP**
**Ffon: 394021/4 Fax: 383803**

**I ddathlu'r symud byddwn, hyd at Fedi 30ain, yn cynnig bonws i'r sawl sydd yn buddsoddi mewn cronfeydd buddsoddi heb gyngor manwl ac heb wasanaeth gefnogol; naill ai fel bonws i'r buddsoddwr neu fel cyfraniad i elusen o ddewis y buddsoddwr e.e. Yr Urdd, Y Dinesydd, Mudiad Ysgolion Meithrin etc.**

**Am fanylion pellach cysylltwch a Dafydd Hampson-Jones neu Peter Cardinali.**


# BWTH RUTH



Wel, helo. Pa hwyl sydd? Newydd ddod yn ol wedi bod yn bwrw'r Sul yn y Felinheli - a newydd orffen gwneud joban dwi'n chasau, sef dad-lwytho'r car. Erbyn hyn mae 'na lond peiriant o olchi yn troi a throsi o'm mlaen i, mae 'na tua dwsin o ledod afon Menai yn stiff yn y rhewgell ag o'm mlaen i hefyd, mae 'ma lond pwced melyn o gregyn gleision yn bwydo ar flawd ceirch.

Dwi'n teimlo fel taswn i wedi bod i ffwrdd ers pythefnos, ac mi fydd sawl orig nes ymlaen yn y gaeaf yn cael ei ysgafnu wrth feddwl yn ol at bnawn Sadwrn. Mi roedd yn bwrw glaw mân a'r llanw'n gry' a ninnau'r hen deulu bach yn cael mwynhau bod ar yr hen, hen gwch H.M.S. Dal D'afael ac yn cael mynd o'r Felinheli ar hyd afon Menai, rhwng Griffiths Crossing ar y naill law, a Brynsiencyn ar y llall, dyma benderfynu'n unfrydol fod tre'r Cofis yn edrych yr un mor ddiddorol o'r môr ag ydi o grwydro'i strydoedd culion. Heibio Tal y Foel a chroesi llwybr yr hen Fferi gynt a gweld bwyty'r Castaways ger Dwyran o ongl hollol wahanol. A dyma ni wedi cyrraedd Aber Menai.

Mae dwr y mor yn gynhesach na glaw a tydi'n braf cael bod yn blentynaidd a mwynhau suddo bodiau'r traed yn y tywod gwlyb, ac wrth edrych ar draws y Foryd gweld Caer Belan. Mae'n dechrau tymor y cregyn gleision ac mae yma faint fynnir; mi fedrai ogleuo'r Moule Marinier wrth inni gyd helpu i lenwi'r bwced, gadael y bwced ar y lan a chrwydro drwy'r twyni tywod a chyrraedd traeth arall lle mae'n bosib gweld yr Eifl ar un ochr i'r mor, ac Ynys Llanddwyn ar y llall - ydi, mae yn wir, mae'r mor yn gynhesach na'r glaw.

Mygiad o de wedi cyrraedd nol i'r cwch, yna ail gychwyn yr injian a morio'n araf rhwng y banciau tywod serth, mae'r llanw wedi troi a ninnau'n trio anelu yn ol am Felinheli. Mae'r teulu bach yn gwybod yn union pwy sy'n byw ac wedi perchnogi bron bob ty a phlasdy ar hyd yr afon - Trefarthen, Porthamal, Gelleiniog, Ty Coch, Rhyddgaer, Tal Gwynedd, Cae Sinamon, Tyddyn Calch a Parciau, i enwi dim ond rhai. Rhyw ddiwrnod fel yna fydda i'n gallu tynnu arno yn ogleuon, yn olygfeydd ac yn hwyl wrth i'r dyddiau dynnu atynt. Dwi'n siwr bod 'na sawl un ganddoch chithau hefyd - tydi haul ddim yn bob peth nac ydi!!


Dymuna'r 'Dinesydd' gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru.

# WYTHNOS I'W CHOFIO

Pan ddaeth gwahoddiad i mi fynd yn un o bump yn cynrychioli Cynulliad Merched Cymru mewn cynhadledd ym Moscow, wnes i ddim dychmygu y byddwn yn mynd ar un o'r teithiau mwyaf cyffrous yn fy mywyd. Cynhaliwyd y gynhadledd yn ystod yr wythnos olaf ym mis Mehefin, ac fe ddaeth 2,800 o ferched o bob rhan o'r byd yno. Trefnwyd y gynhadledd gan bwyllgor merched Llywodraeth yr Undeb Sofietaidd ac felly roeddem i gyd yn westeion y llywodraeth ac yn cael triniaeth V.I.P. Cawn deithio ar y bysus yn rhad ac am ddim, ac fe gawsom oll ein lletya mewn dau westy moethus iawn ar gyrrau'r ddinas ond ar gyfer y prif gyfarfodydd roedd fflyd o 70 o fysus i'n cludo nol ac ymlaen i ganol y ddinas, a thraffic Moscow i gyd ar stop i ni fynd heibio.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf a'r olaf un ym Mhalas y Cynghresi o fewn i furiau y Kremlin - adeilad gweddol fodern a'r neuadd enfawr a lle i 6000 o bobl - a daeth neb llai na'r Arlywydd ei hun, Mikhail Gorbachev i agor y gynhadledd a Robert Mugabe. Arlywydd Zimbabwe i'w chloi. Roedd trefniadau cyfieithu ar y pryd wedi eu paratoi mewn chwech o ieithoedd - yn anffodus nid oeddynt wedi gwneud paratoadau arbennig ar gyfer y tair ohonom oedd yn siarad Cymraeg !! Y ddwy arall oedd Heulwen Humphreys o Aberteifi (mae rhai ohonoch yn cofio amdani fel Heulwen Evans a fu ar un adeg yn dysgu Cymraeg yn ysgol uwchradd y merched yma yng Nghaerdydd) a'r llall oedd Beryl Hall, y gantores o Fangor. Meddyliwch mewn difri, fod dwy Beryl Hall yn yr garfan fach hon o Gymru. A dyna i chi broblemau a gododd oherwydd hyn - dim ond un tocyn awyren ar gyfer y ddwy ohonom a hwnnw i mi, ond fe lwyddodd Beryl Bangor i gael un mewn pryd wrth fynd ac wrth ddod adre. Cawsom lawer o hwyl o fod a'r un enw hefyd, ac fe ddaeth a gwên hyd yn oed i wynebau rhai swyddogion diogelwch - a nid yw'r rhain yn enwog am ei serch-usrwydd mewn unrhyw wlad! Roedd y ffaith fod y tair ohonom yn siarad Cymraeg â'n gilydd yn amlwg yn gryn ddirgelwch i amryw o'n cwmpas ac fe ofynwyd i ni droeon pa iaith roeddym yn ei siarad. Dyma gyfle gwych i roi dipyn o gyhoeddusrwydd i Gymru, a dyna wnaethom bob gafael. Buom yn pendroni tybed a oedd y dynion diogelwch yn deall Cymraeg. Os felly, efallai mai dyna pam roeddynt yn gwenu. Un bore cawsom ein hunain, a nifer o rai eraill ar fws wedi ei threfnu ar gyfer pobol yn siarad Sbaeneg. Pan gyrhaeddodd y rhain Archentwyr oeddynt, a dyma floedd o ben blaen y bws "No English". Wrth fynd allan dywedais innau "Not English - Welsh". "O.K." meddent "You can stay" ond mynd ar ras i ddal y bws oedd wedi ei baratoi ar ein cyfer a wnaethom heb gael cyfle i ofyn a oedd ganddynt ryw gysylltiad â Phatagonia ai peidio.

Roedd araith Mr. Gorbachev yn wefreiddiol. Gan mai thema'r gynhadledd oedd 'Tuag at 2000 heb arfau niwclear - er mwyn heddwch, cydraddoldeb a datblygiad' dechreuodd ei araith trwy ddweud mai prif orchwyl gweleidyddion heddiw yw diogelu bywyd ar y blaned hon, ac fod pob problem arall, sef difodi, tlodi a newyn, hyrwyddo addysg, gofalu am yr amgylchedd ac yn y blaen ynghlwm wrth y dasg o sicrhau dyfodol ddi-niwclear. "Rhaid dod i gyd-ddealltwriaeth" meddai "Nid oes unrhyw bwrpas i geisio datrys problemau eraill onibai ein bod yn gallu byw yn gytun a dysgu derbyn a pharchu gwahaniaeth y naill a'r llall heb ymosod ar ein gilydd". Gwnaeth argraff ddofn ar ei gynylleidfa ac mi gredaf i beth bynnag ei fod yn ddyn didwyll ac yn ddiffuant yn yr hyn a ddywedai. Tua diwedd y cyfarfod daeth ugeiniau o blant i mewn i'r neuadd a rhoi blodyn i bob aelod o'r gynylleidfa. Yna aeth pedwar plentyn i'r llwyfan, un o Copenhagen, un o Mexico, un o Nairobi ac un o Singapore, lle cynhaliwyd cynhadleddau tebyg yn y gorffennol. Roedd pob un ohonynt yn cario pelen fach a map o'r byd yn eu dwylo yn gynrychioli'r blaned hon. Yn syml iawn dywedasant "Rydym NI eisiau byw; rydym ni EISIAU byw; rydym ni eisiau BYW". Roedd hyn yn tanlinellu yr oll oedd yr Arlywydd wedi ei ddweud yn ei araith. Yna rhedodd y leiaf ohonynt, yr un o Singapore i'r llwyfan a rhoi bel fach iddo. Cododd hi yn ei freichiau a rhoi cusan iddi. Wedi hyn, bu raid iddo dynnu ei sbectol. Moment emosiynol iawn i bawb ohonom oedd yno.

Wedi'r agoriad, euthum ati i gynhadledda, i bwyllgora, i ymweld ag ysgolion, ysbytai, gweithfeydd a swyddfeydd, yn wir ar bob math o weithgareddau. Roedd fel bod mewn eisteddfod anferth a phawb yn trio gwneud mwy nag oedd yn bosibl mewn pum niwrnod - ac yn llwyddo. Yn ogystal â'r gynhadledd cawsom gyfle i fynd i wasanaeth yng nghapel y Bedyddwyr yng nghyffiniau y Kremlin, yng nghanol y ddinas. Profiad arbennig iawn oedd hwn ac yn dra gwahanol i'r hyn a brofais erioed o'r blaen. Gwasanaeth syml, efengylaidd ei naws yn para am ddwy awr gyda thair pregeth a chôr yn canu, y capel yn orlawn a chynulleidfa o ryw fil yno. Testun un o'r pregethau meddai merch oedd yn cyfieithu dipyn inni o bryd i'w gilydd oedd "Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo" a chefais fy hun yn ôl yn y Tabernacl ychydig wythnosau ynghynt a'r gweinidog yn sôn am y darlun enwog gan Holman Hunt "Goleuni y Byd". Profiad ysgytiol yn wir.

Ar y diwrnod olaf ond un, trefnwyd rali heddwch yn Gorky Park. Roedd tua 60,000 o bobl yno, llawer ohonynt mewn gwisgoedd traddodiadol. Roedd yr orymdaith ar hyd un o brif strydoedd Moscow yn gwbl heddychlon, ac yn eithriadol o liwgar gyda baneri a balwns, wynebau llawen a hapus mor annhebyg i'r darlun sydd gan y rhan fwyaf o bobl y wlad hon am bobl Moscow. Mae'n hen bryd sylweddoli fod pethau yn newid yn Rwsia, yn arbennig felly ym Moscow.

Cawsom wahoddiad i de i'r Llysgenhadaeth Brydeinig, a gwahoddiad i wledd gan y llywodraeth Sofietaidd ar y pnawn olaf, ar ôl cyngerdd ardderchog gan blant a phobl ifanc, yn unawdwyr a cherddorion, yn ddawnswyr o theatr y Bolshoi a chantorion proffesiynnol. Dyna ddigon i chi wybod ein bod wedi cael wythnos i'w chofio, ond ar ben hyn i gyd cawsom gyfle i gyfarfod a merched o bob rhan o'r byd, cyfle am sgwrs a thrafodaeth a chroeso di-ben gan y merched o Moscow oedd yn gofalu amdanom ac yn benderfynol ein bod am fwynhau bob munud o'n arhosiad yn eu gwlad. Gair mawr yr wythnos oedd MIR (Heddwch) a dyna oedd ein cyfarchiad i'n gilydd bob dydd. Roedd y dyhead hwn am heddwch yng nghalon pawb oedd yno ac yn dod a ni yn agos iawn at ein gilydd. Gobeithio yn wir y caiff neges y gynhadledd ei lledaenu. Dyna'r unig ffordd gredaf i, fel Mr Gorbachev, i sicrhau bywyd ar y blaned hon.

Beryl Hall

# Arddangosfeydd Medi.

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**
**Y Prif Adeilad, Parc Cathays**

Campweithiau o'r Amgueddfa Genedlaethol.

Darluniau gwychaf yr Amgueddfa yn cael ei harddangos wedi'r daith enwog i Japan.

**Ty Turner, Heol Plymouth, Penarth**

Peintiadau Cyfoes

Detholiad o gasgliad yr Amgueddfa yn cynnwys gweithiau gan Augustus John a'i chwaer Gwen, Ceri Richards, Cedric Morris, Kyffin Williams, Josef Herman, Stanley Spencer a Harold Gilman.

**Oriel Reilffyrdd, Heol Bute**

**i. Y Locomotif Stem yng Nghymru - tan 30 Medi**

Cyfres o beintiadau gan Ifor Pritchard. (Agorwyd yr Oriel newydd hon y llynedd yn hen adeilad Gorsaf Heol Bute)

**ii. Rheilffyrdd Cymru yn y tridegau- gan 30 Medi**

Arddangosfa o ffotograffau a dynnwyd gan Victor Webster yn y tridegau.

**CHAPTER, Heol y Farchnad, Treganna**

**Arddangosfa M.A. Caerdydd - 19 Medi - 18 Hydref**

Gweithiau y 13 myfyriwr cyntaf y Cwrs newydd M.A. mewn Celfyddyd Gain yng Ngholeg Addysg Uwch De Morgannwg.

**Y Ffotogallery, 31 Heol Siarl**

Vadute D' Italia; 28 Awst - 26 Medi

Ffotograffau gan Alistair Crawford a Robert Greenham.

# CELF PORT

Peth calonogol iawn yw gweld y celfyddydau gweledol yn cael mwy a mwy o sylw yn y Brifwyl. Ym Mro Madog eleni gwelwyd y celfyddydau cain yn cael rhywbeth yn agosach i'w priod le, hynny yn sgil gweithgarwch a chydweithrediad da y pwyllgor lleol; Heather Jones, Swyddog Celf yr Eisteddfod, a Gweled - Cymdeithas Gymraeg y Celfyddydau Gweledol. A honno'n dal i fod yn ei blynyddoedd cynnar (sefydlwyd 1984) byd o les iddi fydd penodiad Sian Owen a fu'n dysgu yn Llanhari, fel Swyddog Datblygu llawn amser. Fe ddylai'r Gymdeithas fod yn ddylanwad yn y dyfodol i ofalu lle teg i'r rhan hon o'n diwylliant, yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Am y tro cyntaf erioed trefnwyd darlithfa yn rhan o'r Babell Gelf a Chrefft, lle cafwyd cyfres o gyfarfodydd yn ystod yr wythnos. Amrywiodd y rhain o ymddangosiadau o dri o ffilmiau HTV ar Artistiaid Cymru - gyda thrafodaeth yn dilyn, i drafodaethau yn canolbwyntio ar addysg Celf mewn ysgolion.

Yn y Babell ei hunan cafwyd gosod trefnus o'r gweithiau ond siomedig oedd gweld cyn lleied o weithiau yn ymddangos dan benawd y Fedal Aur. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Celf a Crefft yn ei gyflwyniad mai dymuniad y Swyddog Celf a Chrefft a Phanel Sefydlog yr Eisteddfod yw gweld yr adran hon yn datblygu i fod yn brif ddigwyddiad celfyddyd yng Nghymru. Dyn a ŵyr bod yna wir angen am gyfle o'r fath ond ni fyddwn yn agos at weld gwireddu dymuniad o'r fath hyd nes i'r Babell fod yn ddigon eang i arddangos tipyn yn fwy na thri deg wyth o weithiau gan brif artistiaid Cymru. Nid yw hyn yn cynrychioli dim ond rhan fach iawn o'r cynhyrchu sydd heddiw. A mwy o artistiaid gwir Gymreig o ran geni ac iaith yn gweithio yng Nghymru heddiw ac sydd wedi cael addysg ac hyfforddiant o'r radd flaenaf (mwy am wn i nag erioed yn ein hanes) pam na fedrwn weld mwy ohonynt yn cael cyfle yn y Brifwyl?

Allan o'r tri deg wyth, dangosgwyd dim llai na gwaith wyth o artistiaid o Gaerdydd. Yr oedd Iwan Bala, Treganna a Philip Childs, Y Rhath, ymysg pedwar a rannoddd y brif wobr. Dangoswyd dau o beintiadau Anthony Goble, Cathays ac Eric Christopher Horne, Splot - ac un yr un o beintiadau Peter Bailey, Splot; Mike Brown, Y Rhath; Mathew Roberts, Y Rhath; a Peter Spriggs, Treganna.

Dyfarnwyd y Fedal Aur am Bensaerniaeth i Adran Penseiri Cyngor Sir Gwynedd am Bencadlys Gwynedd, Caernarfon. Y Pensaer Ymgynghorol oedd y diweddar Dewi Prys Thomas. Yr oedd y dyfarniad felly yn cydnabod ei gyfraniad arbennig i bensaerniaeth yng Nghymru, fel Athro a Phennaeth yr Ysgol Gymreig. Trefnodd Gweled ddarlith goffa iddo yn y Babell Len.

Ymysg rhai o Gaerdydd a fu'n llwyddiannus mewn cystadleuthau eraill oedd Celia Davies, Kimberley Road, yn gydradd ail am Emwaith, a Morgan Hall Stiwdio 5 Chapter, am Grochenwaith ac yn gydradd gyntaf. Yn adran ysgolion ac ieuenctid, rhannodd Sian Crowther a Ben Piper, y ddau o Kinberley Rd. y wobr am arlunio a pheintio dan 12 oed ar y thema 'Y Dyfodol'. Mewn cystadleuaeth Celf a Chynllunio Safon A,Al Dylunio a Pheintio cafodd Maria Pask o Ysgol Uwchradd Caerdydd y wobr gyntaf am 'gampwaith eithriadol' yn ol y catalog. Cafodd Sarah L. Hodges o'r un ysgol ganmoliaeth uchel ynghyd â David J. Boughton o Ysgol Uwchradd yr Eglwys, Llandâf, a Catherine Phillips, Ysgol Glantaf. Siom oedd gweld cyn lleied o waith myfyrwyr o ysgolion Cymraeg De a Chanol Morgannwg. Yr oedd dau o Gaerdydd ymysg y detholwyr eleni sef Bernard Evans a Richard Lewis; Bernard yn traddodi beirniadaeth deg a diddorol ar waith enillydd Dilyniant Tap/Sleidiau ar y testun 'Datblygiadau yr Wythdegau'. Yn anffodus nid oedd neb yn cystadlu ar wneud Fideo neu FFilm ac felly ni chafodd Richard Lewis mor cyfle i ddethol.

Un o'r pethau a roddodd fwynhad i mi ac nad oedd yn rhan o'r cystadlaethau fel y cyfryw, oedd gweld Elizabeth Haines yn gweithio ym Mhabell Cymdeithas Gelfyddydol Gogledd Cymru. Ennillodd hi gystadleuaeth a chomisiwn Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru, pan wahoddwyd artistiaid a chrefftwyr i lunio gwaith mewn unrhyw gyfrwng gweledol a fyddai'n cyfleu natur ac athrylith Cerdd Dafod. A hithau wedi dysgu rhywfaint o Gymraeg, hyfryd oedd gweld y modd yr aeth ati i liwio a chreu delweddau, dros ac o gwmpas y llythrennu, i geisio cyfleu'r cynganeddion a'r rheolau, ac i ddehongli y cerddi.

Ar y nos Fawrth, yn Oriel Plas Glyn y Weddw, y trefnwyd noson o ddarlleniadau gan bump o feirdd ifanc, ac arddangosfa o luniau gan bump o artistiaid ifanc i fynd a'r cerddi. Dan y teitl 'Gweld Llais a Chlywed Llun' yr oedd y noson yn un llwyddiannus iawn. Menter oedd hon i'w chymderadwy ac yn debyg i'r digwyddiadau ymylol a geir yng Ngwyl Caeredin. Yr oedd y darluniau yn aros fel arddangosfa drwy gydol mis Awst. Un o'r artistiaid oedd Iwan Bala o Gaerdydd a fu wrthi fel un o'r trefnwyr. Braf yw gweld cydweithrediad rhwng llenorion ac artistiaid ifanc, sydd ddim efallai yn gweld eu hunain yn rhan o'r elfen gystadleuol a thraddodiadol yr Eisteddfod ei hun.

## HAUL AR FODRWYON



Dymunwn 'Briodas Dda' ac estynnwn ein llongyfarchiadau i Mererid Davies a Martin Hopwood. Priodwyd y ddau ar Awst 22 yng Nghapel Harmoni, Abergwaun.



LLONGYFARCHIADAU i Meinir, merch ieuengaf Eirion ac Avril Lewis, 26, Eton Court, Y Waun ac Aled Wyn, mab y Parchedig a Mrs. Arwyn Phillips, Aberteifi, ar ôl eu priodas yng Nghapel Heol y Crwys ar 24ain Gorffennaf.



Ar Awst 1af priodwyd Eiddwen Glyn a Cerith Stephen Lewis yn eglwys Heol y Crwys. Y morynion oedd Elin Angharad a Non, a'r gwas oedd Ieuan Rhys. Llongyfarchiadau i'r ddau deulu, Mr a Mrs Wood o Lakeside a Mr a Mrs Lewis o Gaerfyrddin.


Gwersi piano, theorie a phib

Mrs. Almut Davies - L.R.A.M
61, Oakfield Street
Y Rhath

Ffôn: 488399

Cysylltwch o fis Awst ymlaen

# Eisteddfod Casnewydd

Tybed a fuoch chi'n amau doethineb dod a Phrifwyl Cymru i Gasnewydd? Os do fe, does dim angen i chi bryderu dim mwy, oherwydd fe brofodd yr hwyl a gafwyd ar weithgareddau wythnos y Cyhoeddi y gallwn ni edrych ymlaen at Eisteddfod wych ym 1988. Roedd yr hwyl a'r ysbryd twymgalon Cymreig a gafwyd yma yn galondid ac yn ysbrydoliaeth i bawb o garedigion yr Ŵyl.

Dechreuwyd gydag Ysgol Undydd i Ddysgwyr - llwyddiant mawr - a chofiwch mai Gwent yw'r unig Sir lle mae'r Gymraeg ar gynnydd. Oedfa Undebol uniaith Gymraeg wedyn yng Nghadeirlan Sant Gwynllyw a Sioe Ffasiynau ar y nos Lun gyda sylwebaeth ddwy-ieithog, a llawer iawn o ferched smartia'r gynulleidfa yn Gymry pur!

Nos Fawrth wedyn yn Neuadd Fawr y Ganolfan Hamdden cafwyd y "Cadi Ha Ha Ha" gyda thri chant o blant ysgolion cynradd mewn gwisgoedd Cymreig yn cyflwyno Noson Werin o ganeuon, dawsnio gwerin a hen arferion. Y plant wedi dysgu nifer helaeth o ganeuon Cymraeg ar eu cof ac yn amlwg yn mwynhau pob munud o'r noson. A phe bai'r hen Bob Roberts, Tai'r Felin wedi gallu bod yno, rwy'n berffaith siwr y byddai'r ebychiad "Bobol bach, choeliech chi byth" wedi atsain drwy'r lle wrth iddo glywed y plant yn morio canu "Moliannwn" a gweld dwy fam groen-dywyll yn cael cystal hwyl a neb ar ganu a churo dwylo gyda'r "Ffwdl la li la". Noson o Gymreigrwydd na chafwyd ei bath o'r blaen yn y Ganolfan - a noson a oedd yn sicr yn agoriad llygad i lawer o'r gynulleidfa ac yn foddion magu cynhesrwydd tuag at y traddodiadau Cymraeg.

Nos Fercher yn ôl a ni at yr iaith fain, ond yr un ysbryd Cymreig twymgalon gyda'r Athro Emeritws Gwyn Alf Williams yn chwifio baner y Siartiaid ac yn traethu yn ei ffordd unigryw ei hun. Darlith ddiddorol a phryfoclyd.

Nos Iau dyma ni'n nôl eto gyda'r plant a'r bobl ieuainc - yr Ysgolion Uwchradd yn bennaf y tro hwn - o dan arweiniad Glynne Jones yn cyflwyno noson wefreiddiol o gerddoriaeth Gymraeg - yn gorau, cerddorfeydd a bandiau, a grŵp o Uned Gymraeg Sant Deial yn eu crysau-t a'u capiau Eisteddfodol yn cyflwyno Croeso i'r Eisteddfod - calon galed iawn fyddai gan unrhyw un na allai ymateb yn gadarnhaol i'w gwahoddiad. Noson aruchel unwaith eto.

Nos Wener, wedi wythnosau o bryderu ac ymbalfalu gan y rhai oedd yn cymryd rhan, cafwyd rifiw yn dwyn y teitl, "Ble ma'r Swyddfa" - adlais o'r drafferth a gai llawer ar y dechrau i ddod o hyd iddi! Ac ni fu angen y pryderu - cafwyd sgript ddeifiol a doniol, actio gwych, cerddoriaeth hwylus a'r cyfan yn symud o un olygfa i'r llall yn gyflym a chrefftus. Athrawon ac athrawesau'r ardal oedd y perfformwyr a'r cynhyrchwyr - mawr yw braint plant a gaiff athrawon o'r ansawdd yma. Mawr obeithiwn y caiff y rifiw hon weld golau dydd eto yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Yn dilyn y rifiw cafodd y bobl ieuainc gyfle i ymlacio mewn dawns, a rhai o brif grwpiau Cymru yn chwarae yno.

Daeth y Sadwrn - Y DIWRNOD MAWR! - ac er iddi fod yn arllwys y glaw yng Nghaerdydd a Chaerffili, "yn wyneb haul, llygad goleuni" yr oedd Casnewydd. Gosodwyd y cyweirnod yn y bore wrth i ddawnswyr gwerin Gwerinwyr Gwent ddawnsio drwy'r strydoedd ac yn sgwâr John Frost. Mae canol tref Casnewydd yn ardal ddi-geir ac yn hynod hardd - coed a gwelyau blodau ymhobman, ac adeiladau urddasol ar bob llaw - cefndir addas i'r Orymdaith Ddinesig a Gorymdaith Gorsedd y Beirdd. Daeth y tyrfaoedd yno i wylio - ac i guro dwylo hefyd wrth i'r Orsedd fynd heibio! - a'r croeso a'r diddordeb yn amlwg yn wyneb pawb. Profiad cwbl newydd i fwyafrif y trigolion wrth gwrs oedd gweld yr Orsedd yn ei gwisgoedd - wedi'r cyfan, ym 1897 y bu'r Eisteddfod yma ddiwethaf! Ac mae'n sicr i'r orymdaith ddeffro llawer iawn o ddiddordeb yn yr Eisteddfod. I lawr wedyn i Gylch yr Orsedd ac yn bendant prin y mae safle harddach iddi mewn unrhyw dre yng Nghymru - llecyn cysgodol rhwng y coed a'r llwyni ac yn ymyl y llyn. Seremoni'r Cyhoeddi ac urddo'r Archdderwydd newydd Emrys Deudraeth yn urddasol a boneddigaidd, a phawb wedi mwynhau. A'i diweddu gyda'r Cymraeg a'r di-Gymraeg eu hiaith yn ymuno gydag arddeliad yn ein hanthem genedlaethol. Diwrnod bythgofiadwy yn dod i ben yn sŵn cyngerdd gyntaf Côr yr Eisteddfod o dan arweiniad Alun Guy, a honno eto'n noson y gellir bod yn wirioneddol falch ohoni.

Ar yr ail Sul wedyn, taith dawel ac hamddenol ar Gamlas Aberhonddu a'r Fenni, ac oddi yno i Gapel Llanofer i wrando ar ddarlith Eisteddfodol gan Hywel Teifi, ac ysbryd yr hen Arglwyddes yn cyniwair yn ein plith.

Mae Wythnos y Cyhoeddi yn hanfodol bwysig i bob Eisteddfod. Hon sy'n gosod y cywair ac yn codi'r tymheredd tuag at yr Wythnos Fawr ei hun. Digwyddais fod yng nghyntedd y Ganolfan ar y nos Fawrth a gweld athro yn arwain criw o blant bach yn eu gwisgoedd Cymreig i fyny'r grisiau. Yntau'n troi 'nôl atynt ac yn dweud: "Isn't this exciting!" A dyna'r gair efallai am yr wythnos gyfan - "exciting", cyffrous a chynhyrfus. Gweld Cymreigrwydd cynhenir Gwent yn dod i'r wyneb a phawb, beth bynnag eu hiaith, yn ymhyfrydu yn nhraddodiadau'n gwlad. Bellach gallwn fod yn sicr y bydd Eisteddfod Casnewydd ymhlith y goreuon, felly "Dwy ochr y wlad, dewch i'r wledd", cans gwledd yn sicr sydd yn eich haros.

Margaret Jones.


## RECORD RACHEL




Efallai i rai o ddarllenwyr "Y Dinesydd" weld rhaglen Gwyn Erfyl ar S4C nos Sul, Awst 16eg - pryd yr oedd yn sgwrsio a thair chwaer o Gaerdydd. Merched i Mr. a Mrs. Handel Morgan yw Judith, Sian ac Ann. Cawsom gipolwg ar Gymreictod aelwydydd Caerdydd ymhell cyn bo addysg Gymraeg yn bosib. Synais at loewder eu Cymraeg - nid oedd yn dafodiaith y gellid ei lleoli yn unrhyw fan - ond Cymraeg cyfoethog o eirfa - a'r dair yn gallu mynegi eu hunain yn goeth ac urddasol. Tair chwaer ddiddorol iawn, a'u bywyd a'u gyrfaoedd yn lliwgar amrywiol.

Pleser pur oedd gwrando ar Ann yn canu i gyfeiliant Sian - dyma gyfuniad o lais cyfoethog disgybledig - ond yn gallu canu alaw werin yn syml ddidwyll. Yn ddiweddar cyhoeddwyd record gan Ann a recordiwyd yn yr Iseldiroedd gyda llaw. Eisoes clywyd nifer o'r caneuon ar Radio Cymru - ac rwy'n siwr y clywir hi eto yn aml. Caneuon Cymraeg sydd ar un ochr a chyfuniad diddorol ar yr ochr arall. Gobeithio y bydd y record yma yn deillio ar lawer o wahoddiadau i Ann ganu yng Nghymru. Mae hi'n hen bryd iddi gael ei chydnabod fel cantores o safon yn ei gwlad ei hun. Llongyfarchiadau Ann.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 74



AR DRAWS

1. Rhoddwyd ordor i chwaer y B.D. (8)
5. Adar di-sgôr? (6)
9. Ceiriog yn trefnu, ar ddiwedd y daith, i ddangos ei fod yn dwyn olion ei glwyfau. (8)
10. Teimlir â'r synhwyrau (6)
12. Chwarae a thôn ein cyflwr cyntaf. (6)
13. Llythrennau wedi eu llunio ar gar siryf ffyslyd. (8)
15. A gedwir rhain a aeth ar ddisberod yng nghyflwyniad y llyfr? (12)
18. Dim ond un ffordd sydd! (4,3,5)
23. Diarddel yn ddireol un o mysg y saint. (8)
24. Mynnu'r hyn sy'n ddyledus. (6)
26. Gorchudd i gau'r byd allan. (6)
27. Cost afresymol aligator bach. (8)
28. Bresych diraen! Diffeithwch ynghanol y llysiau. (6)
29. Crefftwr o dderyn coch gwyllt. (8)

I LAWR

1. Rywsut, camu â'n bryd ar ryw nôd. (6)
2. Yr olaf o'r Siorsiaid. (6)
3. Daeth cartre'r ddwy chwaer a'u brawd yn gartre ysbrydol i lawer o Gymry. (7)
4. "Onid oedd ein calon yn llosgi ...." (Luc) (4)
6. A yw Sali wedi bod yn crio? (7)
7. Difoes yw hwnnw na ddaw ar 'i union i drefn. (8)
8. Lliaws aneirif yn dod o ganol anialdir i fedi cnwd. (8)
11. Gosodiad sy'n rhoi ofn ar rai o'r deuddeg. (7)
14. Rhaw sgwar ar fin y pafin. (7)
16. Dygais em, a'i ail-osod, gan fy mod wedi synied yn uchel amdano. (8)
17. Mae swyn yn drech nag W, (ag yntau'n feddw). (8)
19. Ymaelodai bum cant am eu bod yn dewis felly. (7)
20. Cnaf trofaus yn hoenus ac yn iau. (7)
21. Tatws. (6)
22. Cor sydd yn canu yn y mignenni? (6)
25. Bocs sydd i'w dynnu. (4)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 73

AR DRAWS:

1. DATODAF; 5. CAEL RHAN; 9. CYMAINT A CHYMAINT; 10; ASIAI; 11. ORGAN MAWR; 12. TEIMLADWY; 14. GWELLA; 15. AERON; 16. BYDDARIAID; 18. LLOSGYNROG; 21. SWYNO; 22. Y PRISOEDD ARFEROL; 23. AMDANAT; 24. TYNNWYD.

I LAWR:

1. DECTANT; 2. TAMAID I AROS PRYD; 3. DEINIOLEN; 4. FOTIO; 5. COCH A GWYRDD; 6. ELLMYN; 7. RHOI HALEN AR Y BRIW; 8. NATUR DDA; 13. DIBYNNENT; 14. GWRTHSAFWN; 15. ARLLWYSA; 17. DIOGLYD; 19. YMSON; 20. GWALLT.

CYSTADLEUAETH RHIF 73

Derbyniwyd pedair ymgais. Maent i gyd yn gywir ar wahan i un llithriad bach. Sylwed A.R.R. mai "natur dda" sy'n gywir, a sylwed John Hughes, Marged Davies a B.H. ar y gwahaniaeth rhwng "byddent" a "byddant" yn y cliw 13. Felly atelir y tocyn llyfrau y tro hwn, gan ddymuno iddynt llwyddiant cyflawn y tro nesaf.

---

**Merched y Wawr - Caerdydd**

Bydd ein tymor newydd yn cychwyn ar nos Lun, Medi 14eg. (Rydym yn cyfarfod ar yr ail nos Lun o bob mis) yn Festri Capel Minny Street am 7.30 o'r gloch.

Edrychwn ymlaen at weld yr hen wynebau, a chroesawn aelodau newydd yn Gymry Cymraeg ac yn ddysgwyr, sydd, gyda llaw, yn troi yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn fuan iawn, yn ein plith.

Mae rhaglen ddiddorol ac amrywiol gennym ar gyfer y gaeaf. Ar Fedi 14eg, Robat Powell, Prifardd Eisteddfod y Rhyl 1985, fydd yn ein hannerch, ac ym mis Hydref bydd Sian Elin, cynllunydd a gwneuthurwraig dillad o bob math yn dangos ei gwaith.

Heulwen Thomas.
Gohebydd Y Wasg.

---

Hydref 13 - Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd - Noson yng ngofal Y Llywydd, Mrs. Gwenllian Jones.

**Dylan Davies a'r Criw Band Roc**

Bydd Dylan Davies a'r Criw Band Roc yn perfformio yng Nghaerdydd yn ystod misoedd Medi a Hydref -

Medi 23ain - Canolfan Chapter
Medi 26ain - Clwb Ifor Bach
Hydref 7fed - Canolfan Chapter

Fe wnaeth y Band sesiwn i 'Cadw Reiat' ym 1986 a dewisodd Aled Sam sesiwn Dylan Davies a'r Criw fel sesiwn y mis. Cafodd y gân 'Anna Paid a Mynd' ei chynnwys ar gaset Sain 'Cadw Reiat' y flwyddyn honno.